## CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

**HYSBYSIAD O'R PENDERFYNIADAU O'R CYFARFOD PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A GYNHALIWYD AR MICROSOFT TEAMS DDYDD LLUN 11 IONAWR 2021 AM 5.30 P.M.**

**YN BRESENNOL:**

Cynghorwyr: Mrs E. M. Aldworth, C. Andrews (Is-Gadeirydd), A. Collis, C. Cuss, A. Farina-Childs, Ms J. Gale, D. Havard, B. Miles, Mrs T. Parry (Cadeirydd) a J. Simmonds.

Swyddogion: R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), S. Richards (Pennaeth Cynllunio a Strategaeth Addysg), Jane Southcombe (Rheolwr Cyllid) A. West (Rheolwr Ysgolion yr 21ain Ganrif), Clare Jones (Cydlynydd y Fforwm Ieuenctid), C. Forbes-Thompson (Rheolwr Craffu), S. Hughes (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor) ac C. Evans (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

Hefyd yn bresennol:

Aelodau Cyfetholedig: Mr M. Western (Cynrychiolydd Comisiwn Archesgobaethol Eglwys Uniongred Rwsia Caerdydd dros Addysg), Mrs T. Millington (Cynrychiolydd Rhiant-lywodraethwr), Mr G. James (Cynrychiolydd Rhiant-lywodraethwr), Mrs P. Ireland (NEU) a Mr D. Davies (Cymdeithas Llywodraethwyr Caerffili).

Hefyd yn bresennol:

Dau gynrychiolydd o'r Fforwm Ieuenctid.

**YMDDIHEURIADAU:**

Cynghorwyr: P. J. Bevan, W. David, D. T. Hardacre, M. P. James, Mrs G. D. Oliver, J. E. Roberts ac R.Whiting (Aelod Cabinet dros Ddysgu a Chyflawniad)

Mae'r penderfyniadau a'r datganiadau o fuddiant wedi'u nodi isod. Am fanylion pellach cyfeiriwch at yr adroddiad perthnasol.

| EITEM | PWNC | PENDERFYNIAD | PLEIDLAIS |
|---|---|---|---|
| 2. | Datganiadau o Fuddiant. | Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant. | Dd/B |
| 3. | Pwyllgor Craffu Addysg a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 2020. | Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 2020 fel cofnod cywir. | 11 Dros<br>0 Yn erbyn<br>1 Ymatal |
| 4. | Ystyried unrhyw fater a gyfeirir at y Pwyllgor hwn yn unol â'r weithdrefn galw i mewn. | Ni chafodd unrhyw faterion eu galw i mewn. | Dd/B |
| 5. | Blaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu Addysg. | PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddogion, cytunwyd fod:<br>• Symud adroddiad y Strategaeth Waharddiadau a drefnwyd ar gyfer | 13 Dros<br>0 Yn erbyn<br>0 Ymatal |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | 22 Chwefror 2021 i'r cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 17 Mai 2021 i ganiatáu mwy o amser i Swyddogion ymgynghori ag ysgolion.<br><br>• Bydd diweddariad Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a drefnwyd ar gyfer y cyfarfod ar 17 Mai 2021 yn cael ei ddwyn ymlaen i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau fel Eitem Wybodaeth.<br><br>• Cyhoeddi Blaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu Addysg ar wefan y Cyngor. | |
| 6. | Cael ac ystyried adroddiadau'r Cabinet a restrir ar yr Agenda. | Ni chafodd unrhyw un o adroddiadau'r Cabinet a restrir ar yr agenda eu galw ymlaen i'w drafod yn y cyfarfod. | Dd/B |
| 7. | Blaenoriaethau'r Fforwm Ieuenctid a'r Fforwm Iau. | PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddogion fod y Pwyllgor Craffu Addysg wedi:<br><br>3.1 Cefnogi cyflwyno materion y Fforwm Iau a’r Fforwm Ieuenctid i'r Cabinet gan bobl ifanc.<br><br>3.2 Ystyried sut i gynorthwyo'r Fforwm Ieuenctid i fynd i'r afael â'u Materion Blaenoriaeth - codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau brys ac addysgu pobl ifanc o beth i'w wneud mewn argyfwng.<br><br>3.3 Ystyried sut i gynorthwyo'r Fforwm Iau i fynd i'r afael â'u Materion Blaenoriaeth - goryrru ceir.<br><br>3.4 Rhoi sylw dyledus i'r materion a godwyd yn yr adroddiad gan blant a phobl ifanc wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. | Dd/B |
| 8. | Monitro Cyllideb 2020/21 (Cyfnod 7). | Nododd y Pwyllgor Craffu gynnwys yr adroddiad. | Dd/B |
| 9. | Rheoli Lleoedd Ysgol - Ysgol Ffydd. | Nododd y Pwyllgor Craffu gynnwys yr adroddiad. | Dd/B |
| 10. | Asesiad Safonau Blynyddol Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwasanaethau Llyfrgelloedd Bwrdeistref Sirol Caerffili. 2018-19. | Nododd y Pwyllgor Craffu gynnwys yr adroddiad. | Dd/B |

**Cylchrediad:**

Cyhoeddwyd yn electronig erbyn 5.00pm ddydd Gwener 15 Ionawr 2021